# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2016

Amser: 09.00 - 10.33

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3384

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Mark Jones (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Alistair McQuaid (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 348KB) Gweld fel HTML (47KB)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jenny Rathbone ac Aled Roberts. Nid oedd neb yn dirprwyo ar eu rhan.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru: Llythyr gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (7 Mawrth 2016)

### 2.2 Cyflogau Uwch-reolwyr: Llythyr gan Syr Derek Jones (8 Mawrth 2016)

### 2.3 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Llythyr gan Dr Andrew Goodall (9 Mawrth 2016)

## 3 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

3.1 Aeth Jocelyn Davies allan o'r cyfarfod tra bod y mater hwn yn cael ei drafod.

3.2 Nododd a thrafododd yr Aelodau yr ymateb a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ymateb i Lywodraeth Cymru yn gofyn am fanylion penodol ynghylch amserlenni a'r dyddiadau y bwriedir cwblhau'r camau gweithredu mewn perthynas ag argymhellion 2, 6, 17 a 18.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Etifeddiaeth Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad: Trafod yr adroddiad drafft

5.1 Trafododd y Pwyllgor ei Adroddiad Etifeddiaeth, a chytunwyd arno, yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 6 Maes Awyr Caerdydd: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft, a chytunwyd arno, yn amodol ar rai newidiadau.

## 7 Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd yn y Pwyllgor ar 8 Mawrth. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ynghylch y dystiolaeth a gafwyd yn y cyfarfod hwnnw, ac y byddai'r cam hwnnw'n cael ei nodi yn Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor.